Ffurflen Gais am Fwrsariaeth: Ymadawyr Gofal, Gofalwyr Ifainc, a Myfyrwyr wedi'u Dieithrio oddi wrth Rieni

Cyn llenwi'r ffurflen, gwnewch yn sicr eich bod yn cyflawni'r meini prawf i fod yn gymwys am fwrsariaeth a'ch bod wedi darllen y telerau ac amodau, sydd i'w gweld ar ein gwefan www.aber.ac.uk/careleavers.
Ar ôl ei llenwi, anfonwch y ffurflen yn ôl at: ysgoloriaethau@aber.ac.uk neu:
Tîm yr Ysgoloriaethau, Prifysgol Aberystwyth, G4 Adeilad Cledwyn, Penglais, Aberystwyth, SY23 3DD
Os hoffech chi gymorth wrth lenwi'r ffurflen, mae croeso ichi ein ffonio ar: 01970 628786

ADRAN A: Manylion Personol

Cyfeirnod personol UCAS				
Cyfenw				
Enwau blaen				
Yr enw a ddefnyddiwch		Dyddiad geni		
E-bost				
Rhif ffôn				
Cyfeiriad yn ystod y tymor (os gwyddoch) yn cynnwys cod post				
Dewis iaith i gysylltu â chi	Saesneg		Cymraeg	
Adran/Cwrs ym Mhrifysgol Aberystwyth y gwnaed cais iddynt				

Os ydynt ar gael, rhowch enw a manylion cyswllt eich Gweithiwr Allweddol / Gweithiwr Cymdeithasol / Athro / Meddyg / y gweithiwr mwyaf perthnasol yn eich Awdurdod Lleol i gysylltu ag ef/hi i gael cadarnhad o'ch amgylchiadau:

Enw	
Teitl Swydd	
Cyfeiriad	
E-bost	
Rhif ffôn	

ADRAN B: Categori'r Dyfarniad

Rwy'n gwneud cais am y dyfarniad hwn am fy mod (ticiwch y dewis priodol):					
Wedi gadael gofal		Yn Ofalwr Ifanc		Yn fyfyriwr wedi dieithrio oddi wrth rieni	
Rhaid darparu tystiolaeth atodol (gweler Adran C).					

I fyfyrwyr sydd wedi gadael gofal yn unig				
Rwy'n cadarnhau fy mod yn iau na 25 ac wedi bod dan ofal fy Awdurdod Lleol am gyfnod o 13 wythnos o leiaf yn yr adeg rhwng 14 oed a dechrau fy nghwrs Prifysgol	Ydw		Nac ydw	
Rhowch y dyddiadau, neu'r cyfnod amser, neu'r ystod oedran, pryd roeddech yng ngofal yr Awdurdod Lleol:				
Pa Awdurdod Lleol oedd yn gofalu amdanoch:				
Nodwch pa gymorth a gawsoch gan eich Awdurdod Lleol cyn dechrau mewn Addysg Uwch (e.e. gliniadur, cyfraniad ariannol tuag at lyfrau ac offer):				

I Ofalwyr Ifanc yn unig				
Rwy'n cadarnhau fy mod yn iau na 25, wedi fy nosbarthu yn Oedolyn Ifanc sy'n Ofalwr, ac ar hyn o bryd fy mod yn gyfrifol am roi gofal heb dâl i aelod o'r teulu, cyfaill neu unigolyn arall	Ydw		Nac ydw	
Rhowch y dyddiadau, neu'r cyfnod amser, y bu gennych gyfrifoldebau gofal:				
Manylion y sawl yr ydych yn gofalu amdano/amdani, pa berthynas ydych iddo/iddi, a'r cyfrifoldebau gofal:				

I fyfyrwyr wedi'u dieithrio oddi wrth eu rhieni yn unig				
Rwy'n cadarnhau fy mod yn iau na 25, ac nad wyf yn cael cefnogaeth gan fy nheulu oherwydd rhwyg yn ein perthynas sydd wedi rhoi terfyn ar unrhyw gyswllt rhyngom	Ydw		Nac ydw	
Rhowch y dyddiadau, neu'r cyfnod amser yr ydych wedi'ch dieithrio:				
Mae gen i'r dystiolaeth angenrheidiol i gadarnhau fy sefyllfa	Oes		Nac oes	
Byddai'n well gen i siarad â'r Brifysgol yn uniongyrchol am fy amgylchiadau ac i drafod a ydw i'n gymwys	Byddai		Na fyddai	

ADRAN C: DATGANIAD

Caniatâd i Ddatgelu
Bydd y data amdanoch yn cael ei gadw'n gyfrinachol ac yn cael ei ddatgelu, gyda'ch caniatâd chi, i unigolion a sefydliadau (e.e. staff academaidd, adrannau eraill yn y Brifysgol, cyrff cyllido ac Awdurdodau Lleol) sydd angen gwybodaeth i sicrhau bod yr anghenion cymorth yn cael eu hadnabod a chamau gweithredu'n cael eu cymryd i ymdrin â hwy cyn ac ar ôl eich astudiaethau ym Mhrifysgol Aberystwyth. Os na chytunwch i hyn gallai'r gwasanaethau a/neu'r cymorth fydd ar gael ichi fod yn gyfyngedig.

	YR WYF yn cytuno y caiff y Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd drafod fy sefyllfa â gweithwyr proffesiynol eraill lle bo angen
	NID WYF yn cytuno i'r Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd drafod fy sefyllfa â gweithwyr proffesiynol eraill

Rhestr Wirio o Ddogfennau
RHAID cynnwys copïau o'r dogfennau canlynol (nid y rhai gwreiddiol) gyda'ch cais - hebddynt, ni chaiff eich cais ei ystyried:

Categori	Y dystiolaeth sydd ei hangen	✓
Gadael gofal	Cadarnhad o'ch sefyllfa mewn llythyr oddi wrth eich Awdurdod Lleol neu Awdurdod Gofal, yn cadarnhau ichi fod dan ofal yr Awdurdod Lleol am o leiaf 13 wythnos ar ôl troi 14 oed, eich bod nawr wedi gadael gofal yr Awdurdod, a'ch bod yn unigolyn wedi gadael gofal yn ôl y diffiniad yn y Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal)	
Gofalwr Ifanc	Cadarnhad o'ch statws yn Oedolyn Ifanc sy'n Ofalwr mewn copi o'ch datganiad/llythyr Lwfans Gofalwr oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau, cadarnhad o'ch statws trwy'r corff Cyllid Myfyrwyr perthnasol, neu lythyr oddi wrth eich Awdurdod Lleol/Gwasanaethau Cymdeithasol neu Grŵp Cefnogi Gofalwyr	
Myfyriwr wedi dieithrio	Cadarnhad o'ch sefyllfa yn eich asesiad Cyllid Myfyrwyr, neu mewn llythyr oddi wrth weithiwr proffesiynol sy'n gyfarwydd â'ch amgylchiadau teuluol. Os ydych yn ansicr am y dystiolaeth sydd ei hangen, cofiwch gysylltu â ni.	

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi darllen a deall telerau ac amodau gwneud cais am y fwrsariaeth hon a bod yr holl wybodaeth a roddwyd yn gywir.

Llofnod		Dyddiad	

Bydd yr wybodaeth a rowch ar y ffurflen hon yn cael ei chadw mewn dull sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data cyfredol. Dim ond yng nghyswllt eich cais am y fwrsariaeth hon y caiff yr wybodaeth ei defnyddio. Fe'i cedwir ar y sail eich bod yn caniatáu i'r prosesu hyn, ond hefyd am ei bod o fewn i fuddiannau cyfreithlon y Brifysgol i gadw'r wybodaeth i'r dibenion uchod. Bydd yn cael ei gwaredu mewn dull diogel 12 mis ar ôl ei derbyn. I gael mwy o wybodaeth am y ffordd mae'r Brifysgol yn rheoli eich data personol, gweler: https://www.aber.ac.uk/cy/marketing-studentrec/about-us/data-protection-information/

Defnydd y swyddfa